GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gwybodaeth i Rieni
# "Mae Eisiau Dau i Gael Sgwrs"
# Rhaglen Hanen Ar-lein wedi'i Haddasu ar gyfer Rhieni a Gofalwyr
# Therapydd Lleferydd ac Iaith

---

The Hanen Centre.

"Gwelais welliant go iawn yn fy mhlentyn... Roedd e'n gymorth mawr yn fy marn i ... Byddwn i'n ei argymell i unrhyw un" Mam o Gaerffili.

## Beth yw'r Rhaglen 'Mae Eisiau Dau i Gael Sgwrs'?




Mae Rhaglen Hanen yn eich helpu i ddysgu am lefel sgiliau cyfathrebu eich plentyn a sut orau i'w helpu i ddatblygu ei leferydd, ei iaith a'i ddulliau cyfathrebu.

## A fydd fy mhlentyn yn dod gyda fi?

Na. Mae sesiynau ar-lein 'Mae Eisiau Dau i Gael Sgwrs' ar gyfer rhieni a gofalwyr yn unig.  Byddwn yn gweld eich plentyn gyda chi yn ystod eich sesiynau unigol.

## Pa mor aml fydd angen i mi fynychu sesiynau ar-lein 'Mae Eisiau Dau i Gael Sgwrs'?

Bydd angen i chi fynychu pum sesiwn grŵp sy'n para tua dwy awr yr un. Byddwn hefyd trefnu tair sesiwn unigol i wneud recordiad fideo o'ch plentyn yn chwarae gyda chi am bum munud a thrafod y strategaethau yr ydych yn eu defnyddio.



## Beth a ddisgwylir gen i yn sesiynau ar-lein 'Mae Eisiau Dau i Sgwrsio'?

Byddwch yn mynd i bum sesiwn grŵp a fydd yn cynnwys strategaethau i'ch helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu eich plentyn.  Yn dilyn pob sesiwn byddwch yn ymarfer y strategaethau gyda'ch plentyn.  Bydd y rhain hefyd yn cael eu trafod yn y sesiynau unigol.

## Beth fydda i'n ei ddysgu gan y Rhaglen 'Mae Eisiau Dau i Gael Sgwrs'?



Mae rhaglen 'Mae Eisiau Dau i Gael Sgwrs' wedi profi ei bod yn helpu rhieni i gefnogi datblygiad sgiliau cyfathrebu.  Byddwch yn dysgu sut i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, sut a pham y mae eich plentyn yn cyfathrebu ac ar ba gam y mae, yn ogystal â thechnegau a strategaethau ymarferol.  Bydd hyn yn helpu i fod yn ymwybodol o lefel sgiliau cyfathrebu eich plentyn a gosod nodau realistig i gefnogi ei ddatblygiad.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl y Rhaglen 'Mae Eisiau Dau i Gael Sgwrs', byddwn yn trafod cynnydd eich plentyn ac yn cytuno ar gynllun yn unol â'i anghenion.

Weithiau mae'n bosib nad hon yw'r adeg iawn i chi (neu eich plentyn) ymroi i therapi lleferydd ac iaith.  Rhowch wybod i ni os na allwch fod yn bresennol er mwyn i ni allu cynnig eich lle i'r teulu nesaf ar y rhestr aros.  Nodwch os nad ydych yn dod i apwyntiadau heb roi gwybod i ni y cewch eich rhyddhau.

## Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r:

Gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith trwy ffonio:- 01633 - 431633

8.30am i 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener neu ewch i'n gwefan –

https://abuhb.nhs.wales/hospitals/a-z-of-services/speech-and-language-therapy/https://abuhb.nhs.wales/hospitals/a-z-of-services/speech-and-language-therapy/

Speech and Language Therapy in Gwent ..transforms lives

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English".**